# Amodau Cofrestru 2024/25

## Cytundeb Atodol (Gwaith Cymdeithasol)

## Cynnwys


Fformat amgen ..... 2

Cwmpas ..... 2

Cyflwyniad ..... 2

Dogfennaeth Gysylltiedig ..... 3

Prif delerau'r Cytundeb Atodol ..... 4

1 Safonau Proffesiynol a Gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer ..... 4

2 Cyfnodau Ymarfer Dysgu ..... 6

3 Terfynu Nawdd/Cyflogaeth ..... 8

4 Terfynu Cofrestriad ..... 9

5 Eich Astudiaethau ..... 10

6 Rheolau Ffioedd sy'n benodol i'r Rhaglen Gwaith Cymdeithasol Israddedig ..... 11

7 Rheolau Ffioedd sy'n benodol i'r Rhaglen Gwaith Cymdeithasol Ôl-raddedig ..... 13

8 Rhannu Gwybodaeth a Diogelu Data ..... 14

9 Tynnu'n ôl o'ch astudiaethau neu eu gohirio ..... 16

10 Crynodeb o newidiadau sylweddol ..... 16

Rhestr Termau ..... 18

Eglurhad pellach o'r Cytundeb Atodol hwn ..... 20

Adborth ..... 22

Atodiad A ..... 23


| | |
|---|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0 | Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, |
| Yn weithredol o: 1 Awst 2024 | Dyddiad adolygu: Mawrth 2025 |


Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff Y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd.

# Fformat amgen y Cytundeb Atodol hwn

Os bydd angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat amgen, cysylltwch â'r Tîm Cymorth Myfyrwyr drwy http://www.open.ac.uk/contact/ (ffôn +44 (0)300 303 5303), os ydych yn Fyfyriwr gyda'r Brifysgol Agored, neu'r Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid drwy StudentHome os ydych yn Brentis Gwaith Cymdeithasol ar hyn o bryd.

**An English language version of this policy is available.**

**Mae fersiwn Saesneg o'r polisi hwn ar gael hefyd.**

# Cwmpas

## Yr hyn y mae'r Cytundeb Atodol hwn yn ei gwmpasu

Mae'r Cytundeb Atodol hwn yn berthnasol i Fyfyrwyr neu Brentisiaid sydd wedi cael eu derbyn ar raglen Gwaith Cymdeithasol Y Brifysgol Agored.

---

## Yr hyn nad yw'r Cytundeb Atodol hwn yn ei gwmpasu

Nid yw'r Cytundeb Atodol hwn yn gymwys i Fyfyrwyr/Prentisiaid nad ydynt wedi cael eu derbyn eto ar raglen Gwaith Cymdeithasol, myfyrwyr sy'n astudio modiwlau a allai gyfrif tuag at gymhwyster Gwaith Cymdeithasol y tu hwnt i'r rhaglen, na Myfyrwyr/Prentisiaid sy'n astudio cymwysterau neu raglenni dysgu seiliedig ar waith eraill, fel Nyrsio.

Nid yw'n berthnasol i Fyfyrwyr na Phrentisiaid sy'n astudio modiwlau neu gymwysterau safonol Y Brifysgol Agored.

### Prentisiaethau

Os ydych yn astudio prentisiaeth, nid yw rhai rhannau o'r ddogfen hon yn berthnasol i chi. Caiff y rhain eu hegluro ym mhob adran berthnasol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid.

# Cyflwyniad

Mae'r Cytundeb Atodol hwn yn nodi'r telerau ychwanegol y cytunwyd arnynt â'r Brifysgol Agored mewn perthynas ag astudio tuag at Gymhwyster Gwaith Cymdeithasol.

Cytundeb Atodol ydyw fel y cyfeirir ato yn yr Amodau Cofrestru a'r Amodau Cofrestru (Prentisiaid), a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Amodau hynny a'r rheolau, y rheoliadau a'r polisïau a nodir ynddynt. Drwy gofrestru am gymhwyster Gwaith Cymdeithasol, rydych yn cytuno i'r telerau hyn. Mae Rhestr Termau wedi'i chynnwys i esbonio unrhyw dermau a all fod yn anghyfarwydd i chi.

Mae'r Cytundeb Atodol hwn yn weithredol o'r dyddiad y gwnaethoch gofrestru ar gyfer eich cymhwyster Gwaith Cymdeithasol a bydd yn parhau i fod yn berthnasol nes y byddwch wedi cwblhau eich cymhwyster, neu nes y bydd eich cofrestriad wedi dod i ben neu wedi'i ganslo, pa un bynnag fydd yn digwydd gyntaf.

I gael canllawiau penodol ar sut y gall y cytundeb hwn fod yn berthnasol i'ch amgylchiadau personol, cysylltwch â'ch Tîm Cymorth Myfyrwyr, neu'r Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid, neu gyswllt cyfatebol y Wlad.

Gellir diweddaru'r Cytundeb Atodol hwn drwy gydol y flwyddyn er mwyn cywiro gwallau, gwella eglurder neu hygyrchedd, neu fyfyrio ar newidiadau i ofynion cyfreithiol neu reoliadol. Os bydd y diwygiadau hyn yn digwydd ar ôl i chi gofrestru, byddwch yn cael gwybod am unrhyw newidiadau sylweddol i'r ddogfen hon drwy e-bost.

# Dogfennaeth Gysylltiedig

Cyfeiriwch at y ddogfen hon ar y cyd â'r canlynol:

- Polisi Bancio Asesiadau
- Amodau Cofrestru neu Amodau Cofrestru ar gyfer Prentisiaid fel y bo'n berthnasol i'ch cymhwyster
- Rheolau Ffioedd (Ôl-raddedig a Addysgir)
- Rheolau Ffioedd (Astudiaeth Israddedig)
- Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer
- Polisi Addasrwydd i Astudio

- Rheoliadau cymhwyster-benodol ar gyfer eich cymhwyster Gwaith Cymdeithasol.
- Hysbysiad Preifatrwydd i Fyfyrwyr

# Prif delerau'r Cytundeb Atodol

## 1 Safonau Proffesiynol a Gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer

1.1 Er mwyn astudio cymhwyster Gwaith Cymdeithasol gyda'r Brifysgol Agored, mae gofynion ychwanegol i ddatgelu cyfyngiadau ac amodau cyfreithiol. Bydd yn ofynnol i chi gael cliriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (yng Nghymru a Lloegr), gwiriad gan Disclosure Scotland (yn yr Alban) neu wiriad gan Access NI (yng Ngogledd Iwerddon). Bydd yn ofynnol i chi gwblhau hunanddatganiad (a all gynnwys euogfarnau wedi'u disbyddu perthnasol). Dim ond os bydd eich Corff Proffesiynol wedi nodi hynny'n benodol y bydd yn ofynnol i chi gwblhau hunanddatganiad o euogfarnau wedi'u disbyddu perthnasol. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am y wybodaeth y bydd yn ofynnol i chi ei datgelu os yn briodol, cyn cofrestru ar eich cymhwyster Gwaith Cymdeithasol. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'ch Tîm Cymorth Myfyrwyr neu'r Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid.

1.2 Drwy ymrwymo i'r Cytundeb Atodol hwn, rydych yn cydnabod yn benodol eich bod yn deall y safonau proffesiynol a bennwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio sy'n berthnasol i Fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol, ac yn cytuno i ymrwymo iddynt. Mae hyn yn golygu:

a) Os mynegir pryder nad ydych yn cyflawni nac yn cynnal y safonau hyn ar lefel sy'n briodol ar gyfer cam eich astudiaethau ar gyfer y cymhwyster Gwaith Cymdeithasol, efallai y cewch eich cyfeirio o dan Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer Y Brifysgol Agored. Gall hyn arwain at y canlynol:

- gosod amodau arnoch, cyn y gallwch barhau i astudio ar gyfer cymhwyster Gwaith Cymdeithasol (ac, felly, gosod amodau ar eich cyflogaeth, os ydych yn Brentis Gradd Gwaith Cymdeithasol);
- eich atal rhag astudio ar gyfer y cymhwyster hwnnw;
- terfynu cofrestriad ar gyfer y cymhwyster hwnnw;
- peidio â dyfarnu'r cymhwyster.

b) Rydych yn cytuno i roi gwybod i'ch Tiwtor Ymarfer cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl am unrhyw fater a all beri pryder ynglŷn â'ch gallu i gyrraedd safonau proffesiynol yr Awdurdod Rheoleiddio. Os ydych yn Brentis sy'n dilyn rhaglen Gwaith Cymdeithasol, dylech roi gwybod i'r Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid neu'ch Tiwtor Ymarfer am unrhyw fater o'r fath.

1.3 Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer dyfarniad cymhwyster Gwaith Cymdeithasol, mae'n rhaid eich bod, ym marn resymol Y Brifysgol Agored, yn bodloni'r gofynion academaidd a'r gofynion o ran safonau proffesiynol, yn ogystal â gofynion Cynllun Asesu'r Brentisiaeth Gradd Gwaith Cymdeithasol (prentisiaid yn unig), yn foddhaol.

1.4 Lle y gellid bod wedi dyfarnu credyd modiwl i chi sy'n bodloni gofynion academaidd ac ymarfer dysgu'r cymhwyster Gwaith Cymdeithasol, gall Y Brifysgol Agored dal penderfynu peidio â dyfarnu'r cymhwyster os bydd panel Addasrwydd i Ymarfer yn penderfynu eich bod wedi methu â chyrraedd y safonau proffesiynol gofynnol o ganlyniad i faterion a gododd cyn dyfarnu'r cymhwyster.

1.5 Os bydd eich cymhwyster Gwaith Cymdeithasol wedi'i ddyfarnu, a daw unrhyw faterion a ddigwyddodd cyn i'r cymhwyster gael ei ddyfarnu i'r amlwg wedi hynny a ddylai, ym marn panel Addasrwydd i Ymarfer, fod wedi cael eu datgan ac a fyddai wedi arwain at beidio â dyfarnu'r cymhwyster Gwaith Cymdeithasol, yna caiff y mater ei gyfeirio at Bwyllgor Disgyblu Canolog Y Brifysgol Agored. Mae gan y Pwyllgor Disgyblu Canolog y pŵer i dynnu'r cymhwyster Gwaith Cymdeithasol yn ôl.

1.6 Os na chaiff y cymhwyster Gwaith Cymdeithasol ei ddyfarnu o ganlyniad i gamau gweithredu panel Addasrwydd i Ymarfer neu'r Pwyllgor Disgyblu Canolog, mae'n bosibl y cewch gynnig cymhwyster arall Y Brifysgol Agored lle'r ydych wedi cyrraedd y gofynion (yn amodol ar beidio â bod yn destun cosbau disgyblu), ond ni fyddwch yn gymwys i gofrestru i ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol.

1.7 Ni fydd cael cynnig lle ar y cymhwyster gan Y Brifysgol Agored na chwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus yn sicrhau y cewch eich cynnwys ar y gofrestr broffesiynol. Mae'r corff proffesiynol perthnasol ym maes Gwaith Cymdeithasol ar gyfer eich Gwlad yn cadw'r hawl i benderfynu a gewch ymuno â'r gofrestr broffesiynol ar y pwynt cofrestru. Cyfeiriwch at ganllawiau eich corff proffesiynol am y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r gofynion ar gyfer cofrestru.

1.8 Bydd angen i chi fod wedi bodloni'r holl ofynion addysgol a phriodweddau personol a nodwyd i gael mynediad i'ch dewis gymhwyster. Rhaid i holl ofynion y rhaglen gael eu bodloni cyn i'r cymhwyster gael ei ddyfarnu.

1.9 Bydd angen i chi gael Cliriad Iechyd Galwedigaethol boddhaol a chydymffurfio ag unrhyw ofynion iechyd ar gyfer eich galwedigaeth: gall hyn gynnwys cael imiwneiddiadau, er enghraifft brechlynnau Hepatitis B neu COVID-19.

1.10 Bydd eich cofrestriad ar y cymhwyster Gwaith Cymdeithasol yn amodol nes y byddwch wedi bodloni'r Brifysgol Agored eich bod wedi bodloni'r holl amodau mynediad Academaidd, Galwedigaethol a Phroffesiynol gofynnol ar gyfer y Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys darparu'r holl dystiolaeth ddogfennol angenrheidiol, lle y bo'n berthnasol.

1.11 Bydd Y Brifysgol Agored yn terfynu eich cofrestriad ar y cymhwyster Gwaith Cymdeithasol os na fyddwn yn fodlon eich bod wedi bodloni'r holl amodau mynediad Academaidd, Galwedigaethol a Phroffesiynol gofynnol ar gyfer y Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol, cyn dyddiad dechrau eich modiwl. Mae hyn yn cynnwys cael gwiriad cofnodion troseddol yn unol â Chymal 1.1 a Chliriad Iechyd Galwedigaethol.

## 2 Cyfnodau Ymarfer Dysgu

2.1 Pan fyddwch yn cofrestru ar gyfer cymhwyster Gwaith Cymdeithasol gyda'r Brifysgol Agored, rydych yn cytuno i wneud y canlynol:

a) Cydweithredu â'ch Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr neu Ddarparwr Lleoliad er mwyn hwyluso eich cyfranogiad mewn Cyfnodau Ymarfer Dysgu priodol digonol i'ch galluogi i gyflawni deilliannau dysgu'r cymhwyster Gwaith Cymdeithasol.

b) Ymrwymo i Gytundeb Ymarfer Dysgu gyda'ch Aseswr Ymarfer/Addysgwr a'ch Tiwtor Ymarfer ar gyfer pob lleoliad fel rhan o fodiwl lle mae angen i chi ymgymryd â Chyfnod Ymarfer Dysgu.

c) Cydweithredu â'ch Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr neu Ddarparwr Lleoliad a bodloni unrhyw ofynion rhesymol i gynnal enw da'r Noddwr a/neu Ddarparwr Lleoliad a'r Brifysgol Agored, a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol

a'u safonau gwasanaeth mewn cysylltiad â'ch cyfranogiad yn y cyfleoedd ymarfer dysgu a gynigir.

d) Cydymffurfio â pholisïau ac arferion cyflogaeth y Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr a/neu Ddarparwr Lleoliad a chymryd pob cam rhesymol i gynnal unrhyw gyfleoedd ymarfer dysgu a gynigir er mwyn cwblhau'r cymhwyster Gwaith Cymdeithasol.

e) Mae eich cyflogaeth barhaus yn ofyniad i barhau i astudio'r cymhwyster Gwaith Cymdeithasol drwy'r llwybr rhaglen brentisiaeth.

2.2 Bydd y Cytundeb Ymarfer Dysgu yn ei gwneud yn ofynnol i chi gydweithredu â'r Aseswr Ymarfer/Addysgwr Ymarfer, a fydd yn gwneud y canlynol:

a) cynnal arsylwadau ac ymarfer wedi'i oruchwylio, gan gynnig adborth rheolaidd i chi drwy gydol y Cyfnod Ymarfer Dysgu;

b) cyflawni unrhyw gyfrifoldebau asesu sy'n ofynnol gan raglen y cymhwyster Gwaith Cymdeithasol;

c) cymryd rhan mewn cyfarfodydd cynllunio, monitro ac adolygu gyda chi a'ch Tiwtor Ymarfer.

2.3 Os byddwch yn torri Adrannau 2.1 neu 2.2 neu delerau eich Cytundeb Ymarfer Dysgu ac nad yw, ym marn eich Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr na Darparwr Lleoliad na'ch Tiwtor Ymarfer, yn rhesymol ymarferol i chi gwblhau Cyfnod Ymarfer Dysgu, nid yw'n ofynnol i'ch Noddwr na'r Brifysgol Agored roi cyfle pellach i chi fodloni'r gofynion ymarfer dysgu ar gyfer y modiwl hwnnw. O dan yr amgylchiadau hyn gall eich astudiaethau gael eu hatal yn unol â'r Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer.

## 2.4 Myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Gwaith Cymdeithasol (nad ydynt yn rhan o raglen brentisiaeth)

2.4.1 Os bydd anawsterau yn codi yn ystod Cyfnod Ymarfer Dysgu sy'n tarfu ar eich dysgu, bydd Y Brifysgol Agored yn mynd i'r afael â hyn yn unol â'r canllawiau yn y Canllaw Ymarfer Dysgu. Bydd y canllaw ar gael i chi unwaith y byddwch wedi cofrestru ar fodiwl, o dan yr adran “Adnoddau” drwy wefan eich modiwl. Os na allwch gael gafael ar y ddogfen hon, cysylltwch â'ch Tîm Cymorth i Fyfyrwyr.

## 2.5 Dysgwyr sy'n dilyn Rhaglen Brentisiaeth

2.5.1 Fel Prentis, mae'n ofynnol i'ch cyflogwr roi oriau 'y tu allan i'r swydd' wedi'u cynllunio i chi. Dylai'r rhain fod yn oriau â thâl er mwyn astudio. Cytunwyd ar gyfnod eich prentisiaeth a'r oriau wedi'u cynllunio ar ddechrau'r rhaglen, ac maent yn cynnwys y Cyfnodau Ymarfer Dysgu.

---

# 3 Terfynu Nawdd/Cyflogaeth

## 3.1 Myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Gwaith Cymdeithasol (nad ydynt yn rhan o raglen brentisiaeth)

3.1.1 Bydd cyfrifoldebau eich Noddwr, fel y'u nodir yn y Cytundeb hwn, yn dod i ben os byddwch yn gadael eich cyflogaeth neu'n rhoi'r gorau i wirfoddoli. Er mwyn parhau i fod wedi eich cofrestru ar gyfer y cymhwyster Gwaith Cymdeithasol, byddwch yn gyfrifol am ddod o hyd i Noddwr amgen addas er mwyn cwblhau unrhyw ymarfer dysgu pellach sydd eu hangen a chwblhau'r cymhwyster Gwaith Cymdeithasol o fewn y terfyn amser penodedig.

3.1.2 Os caiff cytundeb cydweithredu'r Brifysgol Agored â'ch Noddwr ei derfynu, bydd Y Brifysgol Agored yn cymryd camau rhesymol i'ch galluogi i orffen rhaglen y cymhwyster Gwaith Cymdeithasol, gan gynnwys cwblhau pob modiwl angenrheidiol a chyflawni'r holl Gyfnodau Ymarfer Dysgu angenrheidiol.

## 3.2 Dysgwyr sy'n dilyn Rhaglen Brentisiaeth

3.2.1 Os caiff eich cyflogaeth ei therfynu am unrhyw reswm yn ystod eich prentisiaeth, cysylltwch â'ch Tiwtor Ymarfer neu'r Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid cyn gynted â phosibl oherwydd bydd hyn yn effeithio ar eich gallu i barhau â'ch rhaglen ddysgu.

# 4 Terfynu Cofrestriad

4.1 Gall eich cofrestriad ar gyfer y Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol gael ei ganslo o dan yr amgylchiadau a nodir yn yr Amodau Cofrestru neu'r Amodau Cofrestru (Prentisiaid) fel y bo'n briodol i'ch cymhwyster. Gallwn hefyd ganslo eich cofrestriad os na fyddwch yn gwneud y canlynol:

a) cyflawni ymarfer dysgu gyda'ch Noddwr neu Ddarparwr Lleoliad cytûn.

b) cynnal safonau'r Awdurdod Rheoleiddio mewn perthynas â'ch iechyd, eich cymhwysedd a'ch safonau ymddygiad.

c) argyhoeddi'r Brifysgol Agored eich bod wedi bodloni'r holl amodau mynediad Academaidd, Galwedigaethol a Phroffesiynol gofynnol ar gyfer y Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol, cyn dyddiad dechrau eich modiwl.

4.2 Os byddwch yn methu modiwl (gan gynnwys methu unrhyw arholiad ailsefyll neu ailgyflwyniad), mater i'ch Cyflogwr (Prentisiaid) neu Noddwr fydd penderfynu a fydd yn parhau i'ch cefnogi ar y rhaglen Gwaith Cymdeithasol. Os ydych yn Brentis, dylech gysylltu â'r Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid neu gyswllt cyfatebol y Wlad am ragor o wybodaeth o ran a fyddwch yn cael eich cefnogi i barhau.

## 4.3 Myfyrwyr sy'n astudio y tu allan i Raglen Brentisiaeth

4.3.1 Er bod angen i chi ddod o hyd i Noddwr arall er mwyn parhau â'r modiwlau ymarfer dysgu, gallwch astudio modiwl academaidd ar y cam rydych yn ei astudio ar y pryd heb Noddwr, ar yr amod eich bod yn gallu cyflawni deilliannau dysgu'r modiwl hwnnw.

## 5 Eich Astudiaethau

5.1 Rhaid i chi gwblhau eich Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol yn yr amser a nodir yn y Rheoliadau Cymhwyster sy'n benodol i'ch cymhwyster, a welir ar StudentHome neu fel y nodir yn eich Cynllun Hyfforddi, oni chewch estyniad yn ôl disgresiwn y Bwrdd Astudiaethau Iechyd, Llesiant a Gofal Cymdeithasol. Os ydych yn astudio prentisiaeth, rhaid i unrhyw gais am estyniad gael ei wneud gyda chytundeb eich Cyflogwr a'r Brifysgol Agored, a rhaid iddo gydymffurfio â'r rheolau a nodwyd gan eich Darparwr Cyllid a'r rheoleiddiwr.

Gellir ystyried ceisiadau am estyniad os nad ydych wedi gallu astudio am resymau y tu hwnt i'ch rheolaeth (gweler Atodiad A). Mae amgylchiadau eraill lle y gellir rhoi estyniad yn cynnwys y canlynol:

a) os byddwch wedi cael eich gwahardd dros dro o dan y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer ac wedi cael eich derbyn yn ôl wedi hynny;

b) os byddwch yn colli eich swydd ac nad chi oedd ar fai, ac na allwch ddod o hyd i swydd arall ar unwaith (Myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer cymhwyster Gwaith Cymdeithasol y tu allan i brentisiaeth yn unig).

5.2 Os na allwch, am unrhyw reswm, gwblhau Cyfnod Ymarfer Dysgu, mae'n bosibl y gallwch fancio cyfnodau o asesiad ymarfer parhaus rydych eisoes wedi'u cwblhau. Pan fyddwch yn dychwelyd i astudio, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi gwblhau rhagor o ymarfer dysgu parhaus er mwyn cronni'r nifer gofynnol o oriau astudio. Bydd penderfyniad ynghylch eich cymhwysedd i fancio eich asesiad ymarfer yn seiliedig ar yr egwyddorion arweiniol a nodir yn y wybodaeth yn ymwneud â tharfu ar leoliadau, sydd ar gael yn yr adran ar Reoli ymarfer ar wefan y modiwl perthnasol.

5.3 Mae'n bosibl y gallwch fancio asesiadau eraill a gwblhawyd, fel aseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtor (TMA) os bydd angen i chi ohirio eich astudiaethau i gyflwyniad diweddarach. Ceir rhagor o wybodaeth am ohirio a bancio asesiadau yn y Rheolau Bancio Asesiadau.

5.4 Os cewch gofrestru ar gyfer modiwl sy'n perthyn i gam nesaf y cymhwyster Gwaith Cymdeithasol cyn i chi gwblhau'r modiwl olaf ar y cam presennol, rhaid i chi gwblhau modiwl y cam presennol o fewn 12 wythnos i ddechrau'r modiwl cam nesaf. Os na fyddwch yn cwblhau'r modiwl, efallai y cewch eich dadgofrestru o'r modiwl ar gam diweddarach. Os bydd hyn yn digwydd, ni allwch ailgofrestru nes y byddwch wedi cwblhau'r modiwl dan sylw. Caiff unrhyw oblygiadau ariannol eu trafod â chi. Dim ond gan Fwrdd Astudiaethau Iechyd, Llesiant a Gofal Cymdeithasol y Gyfadran y gellir cael caniatâd eithriadol i wyro oddi wrth y drefn astudio a bennwyd.

Bydd unrhyw eithriadau i'r amserlen 12 wythnos a amlinellir uchod yn cael eu nodi'n glir yn y Canllaw Ymarfer Dysgu y gellir dod o hyd iddo ar wefan eich modiwl.

---

## 6 Rheolau Ffioedd sy'n benodol i'r Rhaglen Gwaith Cymdeithasol Israddedig

Noder: nid yw'r adran hon yn gymwys i Brentisiaid sy'n astudio Rhaglen Brentisiaeth.

6.1 Mae'r Rheolau Ffioedd ar gyfer astudiaeth Israddedig wedi'u nodi yn y Rheolau Ffioedd (Israddedig). Nodir cymhwysedd am ffi modiwl is yn Adran J4 o'r Rheolau Ffioedd (Israddedig).

6.2 Os byddwch wedi methu'r elfennau academaidd, ond eich bod wedi cwblhau elfennau seiliedig ar waith unrhyw fodiwl a restrir yn Nhabl 1, byddwch yn talu Ffioedd Ailadrodd wedi'u haddasu fel y nodir yn Nhabl 1. Ym mhob amgylchiad arall, bydd y rheolau safonau yn ymwneud â ffioedd ailsefyll modiwlau yn berthnasol, fel y'u nodir yn y Rheolau Ffioedd (Israddedig).

**Tabl 1**: **Ffioedd Ailsefyll Modiwlau wedi'u Haddasu ar gyfer modiwlau penodol y Rhaglen Gwaith Cymdeithasol Israddedig**

| Modiwl | Ffi'r Modiwl ar gyfer 23/24 | Ffi Ailsefyll Wedi'i Haddasu |
|---|---|---|
| K123 (Lloegr) | £3,636 | £1,709 |
| K123 (Yr Alban) | £1,880 | £888 |
| K123 (Gogledd Iwerddon) | £1,845 | £869 |
| K123 (Ffi Drosiannol Cymru) | £1,924 | £907 |
| K123 (Ffi Safonol Cymru) | £2,022 | £1,031 |
| K246 (Lloegr) | £3,636 | £1,709 |
| K246 (Yr Alban) | £1,188 | £891 |
| K246 (Gogledd Iwerddon) | £1,159 | £869 |
| KZW216 (Ffi Drosiannol Cymru) | £2,625 | £864 |
| KZW216 (Ffi Safonol Cymru) | £2,625 | £984 |
| K315 (Lloegr) | £3,636 | £2,728 |
| K315 (Yr Alban) | £1,188 | £891 |
| K315 (Gogledd Iwerddon) | £1,159 | £869 |
| KZW315 (Ffi Drosiannol Cymru) | £2,625 | £864 |
| KZW315 (Ffi Safonol Cymru) | £2,625 | £984 |

Gall y ffioedd amrywio rhwng gwledydd datganoledig y DU o ganlyniad i'r lefelau gwahanol o gyllid a gaiff Y Brifysgol Agored gan ddarparwyr cyllid canolog.

---

# 7 Rheolau Ffioedd sy'n benodol i'r Rhaglen Gwaith Cymdeithasol Ôl-raddedig

Noder: nid yw'r adran hon yn gymwys i Brentisiaid sy'n astudio Rhaglen Brentisiaeth.

7.1 Mae'r Rheolau Ffioedd ar gyfer astudiaeth Ôl-raddedig wedi'u nodi yn y Rheolau Ffioedd (Ôl-raddedig).

7.2. Os byddwch wedi methu'r elfennau academaidd, ond eich bod wedi cwblhau elfennau seiliedig ar waith unrhyw fodiwl a restrir yn Nhabl 2, byddwch yn talu Ffi Ailadrodd wedi'i haddasu fel y nodir yn Nhabl 2. Ym mhob amgylchiad arall, bydd y Rheolau Ffioedd (Ôl-raddedig) yn berthnasol.

**Tabl 2: Ffioedd Ailsefyll Modiwlau wedi'u Haddasu ar gyfer modiwlau penodol y Rhaglen Gwaith Cymdeithasol Ôl-raddedig**

| Modiwl | Ffi'r Modiwl ar gyfer 23/24 | Ffi Ailsefyll Wedi'i Haddasu |
|---|---|---|
| K832 | £4,335 | £3,252 |
| K833 | £4,335 | £3,252 |

Gall y ffioedd amrywio rhwng gwledydd datganoledig y DU o ganlyniad i'r lefelau gwahanol o gyllid a gaiff Y Brifysgol Agored gan ddarparwyr cyllid canolog.

## 8 Rhannu Gwybodaeth a Diogelu Data

8.1 Gweler Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr Y Brifysgol Agored i gael gwybodaeth lawn am y ffordd rydym yn casglu ac yn defnyddio eich data. Mae pwyntiau ychwanegol sy'n berthnasol i'r Cytundeb Atodol hwn. Drwy ymrwymo i'r Cytundeb Atodol hwn:

a) Gall Y Brifysgol Agored rannu (neu bydd yn rhannu ar gyfer Prentisiaid) gwybodaeth am eich perfformiad academaidd a'r safonau proffesiynol sy'n ymwneud â'ch astudiaeth ar gyfer cymhwyster Gwaith Cymdeithasol â'ch Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr ac unrhyw Ddarparwr Lleoliad. Gall gwybodaeth am faterion yn ymwneud â'ch ymddygiad gael ei rhannu lle y gallant effeithio ar eich addasrwydd proffesiynol neu'ch addasrwydd i ymarfer a'ch cyfranogiad parhaus mewn unrhyw amgylchedd ymarfer dysgu.

b) Bydd Y Brifysgol Agored yn rhoi gwybod i'ch cyflogwr yng Ngham 2 y Polisi Addasrwydd i Astudio os yw hyn yn gymwys i chi. Cyfeiriwch at y Polisi Addasrwydd i Astudio am ragor o fanylion.

c) Gall gwybodaeth am eich iechyd ac unrhyw anabledd rydych wedi dweud wrthym amdano gael ei rhannu â Darparwyr Lleoliad yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol i ddarparu addasiadau rhesymol i gydymffurfio â rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban; Rheoliadau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2004; neu unrhyw ddyletswydd neu rwymedigaeth statudol arall. Hefyd, gall data gael eu rhannu fel na fyddwch chi nac aelodau o'r cyhoedd yn wynebu risg wrth i chi gyflawni lleoliad.

d) Bydd Y Brifysgol Agored yn cadw unrhyw wybodaeth a rennir yn ddiogel ac yn prosesu data yn unol â'r Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr. Bydd eich Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr ac unrhyw Ddarparwr Lleoliad yn storio ac yn prosesu gwybodaeth yn unol â'u Hysbysiadau Preifatrwydd.

e) Gall Y Brifysgol Agored ystyried unrhyw bryder a godir drwy ein Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer. Gall hyn arwain at osod amodau ar eich cofrestriad

parhaus ar y rhaglen, eich gwahardd dros dro neu eich dadgofrestru o'r rhaglen, neu eich diarddel o'r Brifysgol Agored.

f) Gall eich Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr (lle y bo'n gymwys) neu unrhyw Ddarparwr Lleoliad ein hysbysu am unrhyw fater sy'n peri pryderon am eich gallu i gyrraedd safonau proffesiynol yr Awdurdod Rheoleiddio.

g) Gall Y Brifysgol Agored, eich Cyflogwr (Prentisiaid), eich Noddwr ac unrhyw Ddarparwr Lleoliad rannu gwybodaeth a thystiolaeth am faterion yn ymwneud â'ch ymddygiad a allai effeithio ar eich addasrwydd proffesiynol, eich addasrwydd i ymarfer, eich cyflogaeth barhaus neu'ch cyfranogiad mewn Cyfnod Ymarfer Dysgu. Mae gan eich Cyflogwr yr hawl i ddelio â materion sy'n ymwneud â chyflogaeth o dan ei weithdrefnau ei hun, yn annibynnol ar ein Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer. Fodd bynnag, gall hon hefyd gael ei defnyddio mewn perthynas â'r materion hynny.

h) Hefyd, efallai y bydd gan Y Brifysgol Agored rwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu gwybodaeth benodol i'r Awdurdod Rheoleiddio, y corff cyllido, a'r rheoleiddiwr (Prentisiaid).

i) Bydd Y Brifysgol Agored, lle y bo'n ofynnol, yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Rheoleiddio am unrhyw fater sy'n ymwneud ag addasrwydd neu addasrwydd i ymarfer yr ymchwilir iddo, yn ogystal â chanlyniad unrhyw ymchwiliad. Fodd bynnag, ni fydd Y Brifysgol Agored yn rhannu gwybodaeth am ymchwiliad i Addasrwydd i Ymarfer â Noddwr, Cyflogwr na Darparwr Lleoliad os ystyrir nad yw'r mater yr ymchwilir iddo yn peri risg uniongyrchol o dan yr amgylchiadau, na risg i ddefnyddwyr gwasanaethau neu gleifion.

8.2 Ar ôl i chi gwblhau eich cymhwyster Gwaith Cymdeithasol, bydd Y Brifysgol Agored, os bydd angen, yn darparu unrhyw adroddiad neu eirda sydd ei angen ar yr Awdurdod Rheoleiddio fel un o amodau dechrau ymarfer ym maes Gwaith Cymdeithasol.

8.3 Os, ar ôl i chi gwblhau'r gofynion academaidd, na chaiff cymhwyster Gwaith Cymdeithasol ei ddyfarnu, bydd Y Brifysgol Agored yn darparu unrhyw adroddiad neu eirda sydd ei angen ar yr Awdurdod Rheoleiddio mewn perthynas â'r mater hwnnw. Bydd Y Brifysgol Agored yn darparu'r wybodaeth berthnasol fel y'i nodir gan

yr Awdurdod Rheoleiddio. Gall hyn gynnwys ei drosglwyddo'n uniongyrchol i gyflenwr trydydd parti a ddefnyddir gan yr Awdurdod Rheoleiddio.

## 9 Tynnu'n ôl o'ch astudiaethau neu eu gohirio

Noder: nid yw'r adran hon yn berthnasol i Brentisiaid sy'n astudio Rhaglen Brentisiaeth, a ddylai gyfeirio at Adran G5 "Newid eich cynlluniau astudio am resymau eithriadol neu bersonol" o'r Rheoliadau Academaidd (Prentisiaid).

9.1 Os ydych yn bwriadu gohirio neu dynnu'n ôl o fodiwl cyn ei gwblhau, dylech drafod hyn â'ch Noddwr cyn gwneud hynny, oherwydd mae'n bosibl y bydd yn atebol am unrhyw ffioedd ychwanegol pan fyddwch yn ailddechrau astudio'r modiwl ac am fodiwlau ymarfer, a bydd angen iddo hefyd gynnig cyfle dysgu ymarfer newydd.

9.2 Bydd Y Brifysgol Agored yn gweinyddu unrhyw Gredydau Ffioedd neu Ad-daliadau Ffioedd sy’n ddyledus yn unol â’r Rheolau Ffioedd.

## 10 Crynodeb o newidiadau sylweddol

Bu sawl newid sylweddol ers fersiwn flaenorol y ddogfen hon, sef:

a) Mae'r gofyniad i gwblhau hunanddatganiad (a all gynnwys euogfarnau wedi'u disbyddu perthnasol) wedi'i ychwanegu yng Nghymal 1.1.

b) Mae “Tîm Cymorth ac Ymrestru ar Brentisiaeth” wedi'i newid i “Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid” drwyddi draw.

c) Mae'r diffiniad o'r “Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid” wedi'i ddiwygio yn y Rhestr Termau heb newid yr ystyr.

d) Mae Cymalau 1.2 ac 1.5 wedi'u haralleirio i'w gwneud yn gliriach heb newid y neges.

e) Mae'r term Prentis wedi'i ddefnyddio yn lle Dysgwr, lle y bo'n briodol, wrth gyfeirio at y rheini ar y rhaglen brentisiaeth.

f) Mae Cymalau 1.10 ac 1.11 wedi'u hychwanegu yn nodi y bydd eich cofrestriad ar y cymhwyster Gwaith Cymdeithasol yn parhau'n amodol nes y bydd yr holl amodau mynediad Academaidd, Galwedigaethol a Phroffesiynol wedi'u bodloni.

Os na fydd yr amodau hynny wedi'u bodloni erbyn dyddiad dechrau'r modiwl, bydd Y Brifysgol Agored yn terfynu eich cofrestriad ar y cymhwyster Gwaith Cymdeithasol.

g) Mae Cymal 4.1c wedi'i ychwanegu yn nodi y gall Y Brifysgol Agored ganslo eich cofrestriad ar gyfer y cymhwyster Gwaith Cymdeithasol os na fyddwch yn bodloni'r holl amodau mynediad Academaidd, Galwedigaethol a Phroffesiynol erbyn dyddiad dechrau'r modiwl, er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed yng Nghymal 1.11.

h) Mae Tabl 1 a Thabl 2 wedi'u diweddaru i gynnwys y Ffioedd Ailsefyll Modiwlau ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2024-2025.

i) Mae'r adran “Cytundebau Atodol a ddisodlir gan y ddogfen hon” wedi'i symud i ddiwedd y ddogfen.

j) Nodwyd yn glir y rhoddir blaenoriaeth i'r telerau ac amodau yn y Cytundeb Atodol hwn dros yr Amodau Cofrestru lle maent yn wahanol.

## Cytundebau Atodol a ddisodlir gan y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn disodli'r fersiwn flaenorol o Gytundeb Atodol Amodau Cofrestru (Gwaith Cymdeithasol) 2023/24.

Mae'r ddogfen hon yn Gytundeb Atodol i'r Amodau Cofrestru neu'r Amodau Cofrestru ar gyfer Prentisiaid fel y bo'n berthnasol i'ch cymhwyster. Rhoddir blaenoriaeth i'r telerau ac amodau yn y Cytundeb Atodol hwn dros yr Amodau Cofrestru perthnasol lle maent yn wahanol.

# Rhestr Termau

## Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid

Mae'r Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid yn rhoi cymorth i brentisiaid drwy daith eu Prentisiaeth. Mae'r Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid yn cynnwys tîm o Uwch-gynghorwyr sy'n cynnig cyngor a chymorth ar gyfer amrywiaeth o ymholiadau a all fod gan brentisiaid wrth astudio eu modiwlau, gan gynnwys cyngor ar aseiniad neu arholiad sydd ar ddod, defnyddio llwyfannau dysgu ar-lein Y Brifysgol Agored, neu wrth wynebu amgylchiadau anodd sy'n effeithio ar eu hastudiaethau. Bydd y Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid yn cysylltu â thimau eraill yn y Brifysgol er mwyn sicrhau bod prentis yn cael y wybodaeth, yr help a'r cymorth cywir.

## Prentis/Dysgwr

Myfyriwr 16 oed neu drosodd, sydd mewn cyflogaeth â thâl drwy gydol ei brentisiaeth ac sydd â Chytundeb Prentisiaeth gyda'i gyflogwr. Bydd y Prentis yn cyfuno ei waith ag astudio am gymhwyster seiliedig ar waith, academaidd neu gyfunol. Bydd yn Brentis yn Lloegr sydd wedi'i gofrestru ar gyfer cymhwyster israddedig.

## Cyflogwr

Y sefydliad y mae gennych gontract cyflogaeth ag ef.

## Darparwr Lleoliad

Y sefydliad sy'n darparu mynediad i amgylchedd ymarfer dysgu at ddibenion addysg gwaith cymdeithasol.

## Asesydd Ymarfer (Cymru) neu Addysgwr Ymarfer (Lloegr a'r Alban)

Yr unigolyn/unigolion cymwysedig priodol a benodwyd gan y Noddwr neu'r Darparwr Lleoliad ac a enwyd i'r Brifysgol Agored, i oruchwylio ymarfer dysgu ac asesu deilliannau dysgu perthnasol.

## Cytundeb Ymarfer Dysgu

Y cytundeb sy'n nodi manylion Cyfnod Ymarfer Dysgu a'r trefniadau ar ei gyfer, a phriod gyfrifoldebau'r Myfyriwr a'r bobl sy'n cefnogi ei ymarfer dysgu.

## Cyfnod Ymarfer Dysgu

Cyfnod neu gyfnodau ymarfer dysgu lle cewch eich adnabod yn ffurfiol fel myfyriwr Gwaith Cymdeithasol.

## Tiwtor Ymarfer

Mae person wedi'i benodi gan Y Brifysgol Agored sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am reoli perfformiad Myfyrwyr/Dysgwyr ar draws y modiwlau ymarfer Gwaith Cymdeithasol a astudir fel rhan o gymhwyster israddedig neu ôl-raddedig ac sy'n hwyluso cyfarfodydd ar gyfer yr agweddau ymarfer dysgu ar fodiwlau.

## Awdurdod Rheoleiddio/Corff Proffesiynol

Gofal Cymdeithasol Cymru, Social Work England, Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban neu Gyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon.

## Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol

BA (Anrh) Gwaith Cymdeithasol (Lloegr), BA (Anrh) Gwaith Cymdeithasol (Lloegr) (Prentisiaeth), BA (Anrh) Gwaith Cymdeithasol (yr Alban), BA (Anrh) Gwaith Cymdeithasol (Cymru), neu'r Diploma Ôl-raddedig mewn Gwaith Cymdeithasol.

## Noddwr

Y sefydliad neu'r endid sy'n eich cefnogi i ddilyn rhaglen y Cymhwyster Gofal Cymdeithasol ac sy'n trefnu ac yn goruchwylio eich ymarfer dysgu.  Defnyddir y term hwn p'un a yw'r sefydliad neu'r endid hefyd yn gwneud unrhyw gyfraniad ariannol tuag at eich costau astudio ai peidio. Noder ar gyfer Myfyrwyr ar lwybr interneiaeth heb ei noddi/annibynnol, caiff rhai cyfrifoldebau noddi eu hysgwyddo gan Y Brifysgol Agored a chaiff rhai eraill eu hysgwyddo gan y Darparwr Lleoliad.

## Tîm Cymorth Myfyrwyr

Mae Timau Cymorth Myfyrwyr yn cynnwys academyddion profiadol, cynghorwyr addysgol a staff eraill ag arbenigedd pwnc-benodol ac maent yno i helpu myfyrwyr os bydd ganddynt unrhyw gwestiynau am unrhyw agwedd ar eu hastudiaethau.

## Ni/Ein

Mae hyn yn cyfeirio at Y Brifysgol Agored.

# Eglurhad pellach o'r Cytundeb Atodol hwn

Anfonwch unrhyw wybodaeth neu ohebiaeth arall atom yn electronig er mwyn i ni allu ymateb i chi cyn gynted â phosibl. Gallwch hefyd gysylltu â ni dros y ffôn neu drwy'r post. Er mwyn cadarnhau'r cyfeiriad post diweddaraf a manylion cyswllt eraill, gweler Swyddfeydd Y Brifysgol Agored.

I gael rhagor o wybodaeth am gofrestru, ymrestru a ffioedd neu i newid neu ganslo eich astudiaethau, cysylltwch â:

## Y Tîm Cymorth Myfyrwyr Iechyd, Llesiant a Gofal Cymdeithasol (ar gyfer Myfyrwyr ar Raglenni Gwaith Cymdeithasol)

The Open University
PO Box 197
Milton Keynes
MK7 6BJ

www.open.ac.uk/contact
E-bost: hsc-support@open.ac.uk
Ffôn: +44 (0)300 303 5303

## Y Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid (ar gyfer Prentisiaid ar Raglenni Prentisiaeth)

The Open University
PO Box 197
Milton Keynes
MK7 6BJ

www.open.ac.uk/contact
E-bost: apprentice-support@open.ac.uk
Ffôn: +44 (0)300 303 4121

## Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Os ydych yn preswylio yng Nghymru, gallwch siarad â chynghorydd cymorth myfyrwyr yn Gymraeg neu yn Saesneg.

18 Stryd y Tollty
Caerdydd
CF10 1AP

Ffôn: +44 (0)29 2047 1170
E-bost: wales-support@open.ac.uk

## I siaradwyr Cymraeg

Os ydych yn siarad Cymraeg a byddai'n well gennych drafod eich anghenion drwy gyfrwng y Gymraeg, cysylltwch â'r Brifysgol Agored yng Nghymru yng Nghaerdydd.

Ffôn: +44 (0)29 2047 1170
E-bost: wales-support@open.ac.uk

## Y Brifysgol Agored yn yr Alban

10 Drumsheugh Gardens
Edinburgh
EH3 7QJ

Ffôn: +44 0 131 226
E-bost: scotland@open.ac.uk

## Y Brifysgol Agored yn Iwerddon (Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon)

110 Victoria Street
Belfast
Northern Ireland
BT1 3GN

Ffôn: +44 (0)28 9032 3718
E-bost: northernireland@open.ac.uk neu ireland@open.ac.uk

### I Fyfyrwyr newydd ac o'r tu allan i'r DU (ac eithrio Gweriniaeth Iwerddon):

Ffôn: +44 300 303 0266

Neu anfonwch e-bost atom o'n gwefan www.open.ac.uk/contact

## Adborth

Croesewir sylwadau ac adborth am y polisi hwn a sut y gellid ei wella. Dylech gyflwyno'r rhain i SPR-Policy-Team@open.ac.uk.

# Atodiad A

**Tabl 3: Amgylchiadau lle y gellir ystyried rhoi estyniad i Fyfyrwyr/Dysgwyr gwblhau eu cymhwyster.**

| **Maen prawf** | **Amodau a nodiadau** | **Enghreifftiau o fathau o dystiolaeth ategol sydd ei hangen** |
|---|---|---|
| 1. Marwolaeth aelod agos o'r teulu, partner neu ddibynnydd. | Diffinnir aelod agos o'r teulu fel rhywun roeddech yn dibynnu arno (yn emosiynol neu'n ariannol) neu a oedd yn ddibynnol arnoch chi. | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.<br>Copi ardystiedig o dystysgrif marwolaeth (gellir gwneud eithriad os digwyddodd y farwolaeth o fewn chwe wythnos cyn gwneud cais). |
| 2. Analluogrwydd annisgwyl am gyfnod estynedig ar eich rhan chi neu ar ran aelod agos o'r teulu o ganlyniad i salwch difrifol, damwain neu gyflwr meddygol. | Os oeddech yn ymwybodol o'r problemau meddygol cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod y cyflwr wedi gwaethygu neu ddirywio ers hynny, h.y. ni ellid bod wedi rhagweld ar ddechrau'r modiwl y byddai'r salwch neu'r cyflwr wedi cael effaith andwyol ar eich astudiaethau. | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.<br>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol yn cadarnhau'r sefyllfa. (Mae'n rhaid bod cyfnod y salwch wedi effeithio ar amseru'r penderfyniad i dynnu'n ôl). |

| Maen prawf | Amodau a nodiadau | Enghreifftiau o fathau o dystiolaeth ategol sydd ei hangen |
|---|---|---|
| 3. Anabledd | Yr addasiadau rhesymol a wnaed gan Y Brifysgol Agored er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban; Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 ar gyfer Gogledd Iwerddon; neu unrhyw ddyletswydd neu rwymedigaeth statudol arall, heb eich galluogi i astudio'n effeithiol; neu<br><br>Mae effaith anabledd ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy difrifol na'r disgwyl; neu<br><br>Mae eich anabledd(au) wedi cael effaith gynyddol ar eich astudiaethau ers dyddiad dechrau'r modiwl. | Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu, meddyg ymgynghorol, cynorthwyydd anfeddygol neu berson neu sefydliad cymorth yn cadarnhau'r sefyllfa.<br><br>Tystiolaeth ategol o gofnodion y Brifysgol e.e. y tiwtor, y Tîm Cymorth Myfyrwyr neu'r Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid. |
| 4. Analluogrwydd annisgwyl am gyfnod estynedig ar eich rhan chi o ganlyniad i feichiogrwydd neu famolaeth/tadolaeth neu fenthyg croth. | Os oeddech yn ymwybodol o'r beichiogrwydd cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod effaith y beichiogrwydd neu famolaeth/tadolaeth neu fenthyg croth ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol. | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.<br><br>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan weithiwr iechyd proffesiynol, e.e. meddyg teulu, meddyg ymgynghorol neu fydwraig yn cadarnhau'r sefyllfa. |

| Maen prawf | Amodau a nodiadau | Enghreifftiau o fathau o dystiolaeth ategol sydd ei hangen |
|---|---|---|
| 5. Analluogrwydd annisgwyl am gyfnod estynedig ar eich rhan chi o ganlyniad i fabwysiadu. | Os oeddech yn ymwybodol o'r mabwysiadu cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod effaith y broses fabwysiadu neu'r cyfrifoldebau gofalu ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol. | Tystiolaeth ategol e.e. adroddiad gan y gwasanaethau cymdeithasol, asiantaeth mabwysiadu neu dystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol yn cadarnhau'r sefyllfa. |
| 6. Analluogrwydd annisgwyl am gyfnod estynedig ar eich rhan chi o ganlyniad i ailbennu rhywedd. | Os oeddech wedi bod drwy'r broses ailbennu rhywedd cyn dyddiad dechrau'r modiwl neu os oeddech yn ymwybodol erbyn hynny o'r trefniadau i wneud hynny ar ôl y dyddiad hwnnw, mae'n rhaid bod yr effaith ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol. | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.<br>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol yn cadarnhau'r sefyllfa. |
| 7. Newid annisgwyl mewn amgylchiadau cyflogaeth sy'n golygu nad yw'n rhesymol bosibl i chi barhau i astudio oherwydd natur eithafol y gwaith, cyfathrebu gwael neu ddiffyg cyfleusterau astudio. | Oni fydd aelod o luoedd arfog Prydan yn cael ei leoli yn rhywle, ni chaiff amgylchiadau a all godi fel rhan o fywyd gwaith arferol fel newid swydd, symud, llwyth gwaith cynyddol neu ofynion teithio rhesymol eu hystyried. | Hysbysiad ar ffurf copi caled neu e-bost, a ddilynir gan dystiolaeth ddogfennol, e.e. llythyr neu e-bost gan eich cyflogwr neu bennaeth milwrol. |

| Maen prawf | Amodau a nodiadau | Enghreifftiau o fathau o dystiolaeth ategol sydd ei hangen |
|---|---|---|
| 8. Camweinyddu ar ran Y Brifysgol Agored. | Camau gweithredu neu ddiffyg camau gweithredu y gellid eu hystyried yn gamweinyddu ar ran Y Brifysgol Agored ac sydd wedi effeithio ar eich cynnydd academaidd. Nid yw hyn yn cynnwys amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth Y Brifysgol Agored. | Unrhyw dystiolaeth berthnasol i gefnogi eich cais e.e. cofnod o gyswllt myfyrwyr. |
| 9. Amgylchiadau eithriadol eraill o natur ddifrifol y tu hwnt i'ch rheolaeth. | Amgylchiadau y tu hwnt i'ch rheolaeth a wnaeth leihau'n sylweddol yr amser a oedd ar gael i chi astudio dros gyfnod parhaus. | Tystiolaeth ategol e.e. adroddiad gan y gwasanaethau brys, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu neu gwnselydd neu ddogfennaeth yswiriant y cartref. |
| 10. Newid annisgwyl mewn cyfrifoldebau gofalu. | Os oedd eich cyfrifoldebau gofalu ar waith cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod yr effaith ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol. | Hysbysiad ar ffurf copi caled neu e-bost, a ddilynir gan dystiolaeth ddogfennol, e.e. llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu, meddyg ymgynghorol, cynorthwyydd anfeddygol neu berson neu sefydliad cymorth yn cadarnhau'r sefyllfa. |